



Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Polisi Gwrth Fwlio

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 26 Mawrth 2018

Llofnod y Cadeirydd:

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 28 Mawrth 2019

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 26 Mawrth 2020

Llofnod y Cadeirydd: _____

Polisi Gwrth Fwlio

Datganiad Polisi

Y bwriad yw bod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn ysgol ddiogel heb le i'r bwli.

Pwysleisir bod pob agwedd o fwlian yn cael ei gymryd o ddifrif a'n bod yn ysgol sy'n gwranddo, yn gofalu ac yn gweithredu.

Mae cysylltiad agos rhwng y polisi hwn a pholisi hybu ymddygiad cadarnhaol yr ysgol. Trwy gyfrwng y polisiâu y mae'r ysgol yn sicrhau bod gan unigolion yr hawl sylfaenol i gael eu diogelu rhag unrhyw driniaeth annheg mewn amgylchedd diogel a gofalgarg.

Dylai staff, disgyblion a rhieni fod yn ymwybodol o'r effeithiau negyddol y gall bwlian gael ar unigolion ac ar yr ysgol yn gyffredinol, a dylid cydweithio i sicrhau bod pob unigolyn yn yr ysgol yn medru gweithio mewn amgylchedd heb ofn.

Amcanion

- Gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw bwlian yn digwydd
- Dangos bod yr ysgol yn cymryd bwlian o ddifrif ac nad yw bwlian yn dderbyniol o gwbl
- Sicrhau bod camau priodol i rwystro bwlian yn yr ysgol ac ar weithgareddau allgyrsiol
- Darparu cyfleoedd lle gall disgyblion drafod eu problemau gydag aelod o staff, cwnselydd yr ysgol neu aelodau o'r Chweched dosbarth drwy'r Cynllun Mentora Cyfoedion.
- Creu hinsawdd lle mae disgyblion sydd yn gweld achosion o fwlian yn gallu rhoi gwybodaeth i staff yn gyfrinachol a chreu amgylchedd lle nad yw yn drosedd i ddweud wrth athro am achosion o fwlian
- Cynnwys gweithgareddau i hybu ymagweddau positif ac atal bwlian yn y rhaglen ABCh ac mewn gweithgareddau pynciol lle mae hynny yn bosib ac yn berthnasol
- Delio yn bositif gyda'r bwli a sicrhau rhaglen i'w gynorthwyo i newid agwedd ac ymddygiad
- Sicrhau bod system ddisgyblaeth yr ysgol yn gorchfygu bwlian

Diffiniad o fwlian

- Bwlian yw unrhyw ymddygiad bwriadol neu anfwriadol sy'n cael ei ailadrodd dros gyfnod o amser er mwyn peri loes neu anhapusrwydd i berson arall.

Cyfrifoldebau

Llywodraethwyr

- Sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu yn gyson a theg
- Adolygu'r polisi yn flynyddol yng nghyd-destun canllawiau cenedlaethol
- Cadeirydd i drafod achosion o fwlian gyda'r Pennaeth yn ôl y galw
- Sicrhau bod yr ysgol yn cynnwys rhaglenni gwrth fwlian yn eu rhaglen ABCh

Pennaeth

- Sicrhau bod gan bob aelod o staff gyfle i gyfrannu at drafodaethau wrth adolygu strategaethau a pholisïau
- Penderfynu ar strategaethau a gweithdrefnau
- Trafod materion yn ymwneud â bwlian gyda'r UDA
- Sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael
- Sicrhau bod y gweithdrefnau yn hysbys i staff, disgyblion a rhieni
- Adrodd yn flynyddol i'r Corff llywodraethol
- Sicrhau rhieni bod yr ysgol bob amser yn barod i wrando a hefyd i weithredu mewn unrhyw achos o fwlian

Pennaeth Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb am les

- Sicrhau gweinyddu'r polisi a'r gweithdrefnau o ddydd i ddydd
- Sicrhau bod gan yr ysgol strategaethau positif i gynorthwyo'r rhai sy'n cael eu bwlian a'r bwli
- Adrodd i'r Pennaeth am ddigwyddiadau
- Trefnu hyfforddiant staff perthnasol
- Penderfynu mewn trafodaeth gyda'r Pennaeth pryd i gynnwys rhieni yn y trafodaethau.

Pennaeth Blwyddyn

- Sicrhau bod strategaethau a gweithdrefnau positif yr ysgol yn cael eu gweithredu
- Delio gyda digwyddiadau ac adrodd i'r Pennaeth Cynorthwyol sydd a chyfrifoldeb am les disgyblion yn syth a chyflwyno adroddiad i'r Pennaeth.

Pennaeth Adran

- Sicrhau bod cyfleoedd pynciol o fewn y manylebau i drafod bwlian yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gwaith adrannol
- Trosglwyddo unrhyw wybodaeth sy'n deillio o drafodaethau mewn gwersi i'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol

Tiwtor Dosbarth

- Sicrhau bod pob achos o fwlian yn ymwneud â disgyblion eu dosbarth yn cael eu trosglwyddo i'r Pennaeth Blwyddyn
- Monitro ymddygiad disgyblion a sylwi ar unrhyw newid mewn ymddygiad neu bresenoldeb.
- Cymryd rhan weithredol yn y trafodaethau i ddatrys y problem
- Cyflwyno unedau Gwrth Fwlian yn y rhaglen ABCh

Staff Gyfan

- Atal bwlian trwy fod yn sylwgar a holi disgyblion
- Bod yn ymwybodol o'r strategaethau a'r gweithdrefnau
- Delio gyda digwyddiadau yn unol â'r polisi
- Cyfeirio unrhyw achos o fwlian o fewn yr ysgol neu ar ymweliad addysgiadol i'r Pennaeth Blwyddyn yn syth
- Nodi unrhyw newid mewn safon gwaith neu ymddygiad disgybl a thrafod gyda'r disgybl er mwyn darganfod y rheswm
- Manteisio ar bob cyfle mewn gwersi i drafod bwlian a hybu agweddau positif.

Sut mae adnabod achosion o fwlian

Gall bwlian fod yn:

- Gorfforol
- Eiriol
- Gymdeithasol
- Seicolegol / Emosiynol
- Dechnolegol – safle sgwrsio / e-byst / ar-lein

Gall disgybl sy'n cael ei fwlian arddangos newid mewn patrwm ymddygiad neu batrwm gweithio, methu canolbwyntio neu fod yn absennol o'r ysgol.

Canllawiau i staff wrth ddelio gydag achosion o fwlian

- Ymateb a rhoi cymorth i'r disgybl sy'n cael ei fwlian
- Ymateb a sicrhau cymorth i'r bwli i adfer ei ymddygiad
- Sicrhau bod y bwli yn sylweddoli nad yw'r ysgol yn derbyn ymddygiad o'r fath yma
- Ymateb i'r sefyllfa yn bwyllog ac yn rhesymol ar ôl gwneud ymholiadau a chasglu tystiolaeth
- Y Pennaeth Blwyddyn perthnasol yn derbyn yr wybodaeth ac yn gwrandao'n ofalus, holi a chofnodi'r digwyddiad a rhoi gwybod i'r Tiwtor Dosbarth, Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am les disgyblion neu'r Pennaeth
- Penderfynu ar gosb addas a chysylltu gyda'r rhieni perthnasol i nodi hynny
- Os yw'n parhau wedyn, rhaid gwahardd y bwli o'r ysgol dros dro a sicrhau bod rhaglen adfer ymddygiad yn ei le ar ôl dychwelyd i'r ysgol
- Os na fydd y sefyllfa yn gwella rhaid cymryd y cam nesaf sef gwahardd y disgybl o'r ysgol yn barhaol
- Bydd y Pennaeth Blwyddyn yn nodi'r digwyddiadau yma yn ffeil y plentyn ac yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd
- Mewn achosion lle mae grŵp o ddisgyblion yn bwlia rhaid cyfweld â phob aelod o'r grŵp a delio gyda'r mater yn yr un ffordd ag unigolyn

Cyfraniad y Rhaglen ABCh i ddelio gyda bwlian?

- Paratoi unedau o waith addas sy'n edrych ar effeithiau emosiynol a meddyliol bwlian.

- Y Tiwtor dosbarth i drafod bwlian gyda'r dosbarth, gan annog y plant i fynegi eu teimladau.
- Creu posteri ar gyfer yr ystafell ddosbarth neu ar gyfer mannau amlwg yn yr ysgol.
- Chwarae rôl os yn addas.
- Trafod sut i gael yr hyder i ddweud wrth rywun eu bod yn cael eu bwlio.
- Trafod yn gyson y pwysigrwydd o feddwl am bobl eraill a theimladau pobl eraill.
- Dangos i'r bwli'r pwysigrwydd o gydweithio ag eraill.
- Dangos bod pobl yn casáu bwli ac nad yw yn berson poblogaidd.
- Trafod pam bod bwli yn cyflawni'r weithred gan nodi bod cymorth ar gael i'r bwli.
- Paratoi gwybodaeth addas ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth e.e. rhifau ffôn asiantaethau allanol neu wefannau perthnasol.
- Defnyddio disgyblion blwyddyn 12 er mwyn rhoi cymorth i ddisgyblion Blwyddyn 7.

Rheolau i ddisgyblion

- Peidiwch â goddef cael eich bwlian.
- Dywedwch wrth un o'r athrawon neu aelodau eraill o staff yr ysgol ar unwaith os ydych yn cael eich bwlian.
- Dywedwch wrth un o'r athrawon ar unwaith os gwelwch ddisgybl yn cael ei fwlio.
- Cofiwch beth mae'r bwli wedi ei ddweud/wneud ac enw'r bwli.
- Peidiwch â tharo nôl – gall hynny wneud y sefyllfa yn waeth.
- Dywedwch wrth eich ffrindiau, neu aelod o staff chweched dosbarth.
- Cofiwch gadw tystiolaeth os yw'n fwlio ar-lein.

Beth gall rhieni ei wneud?

- Cysylltu gyda'r ysgol ar unwaith os yw eich plentyn yn cael ei fwlio. Mae'r wybodaeth am y fath sefyllfa yn gyfrinachol.
- Nodwch unrhyw newidiadau yn arferion neu agwedd eich plentyn yn y cartref e.e. ddim eisiau mynd i'r ysgol, bola/pen tost, cleisiau, gofyn am ragor o arian poced, colli eiddo yn aml, dillad wedi rhwygo, ddim am gymryd chwaraeon ac ati.
- Trafodwch yr ysgol gyda'ch plentyn e.e. ffrindiau, gweithgareddau amser cinio, allgyrsiol ac ati.
- Cadw cofnod o ddigwyddiadau y credwch sy'n gysylltiedig â bwlian, enwau plant nad ydych yn gyfarwydd â nhw ac ati.
- Ceisio annog y plentyn i ddweud wrth aelod o staff ar unwaith.
- Mae'n bwysig cael cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r rhieni, er mwyn cyd-gynllunio'r ffordd orau o ddelio gyda'r broblem.